

Dydd Mercher, 15 Mehefin 2022

Hysbysiad o gyfarfod:**Cyngor Sir****Dydd Iau, 23ain Mehefin, 2022 at 2.00 pm,
Council Chamber - Council Chamber****AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd dilynol:	
2.1.	17 Mai 2022	1 - 2
2.2.	19 Mai 2022	3 - 16
3.	Datganiadau o Fuddiant	
4.	Cwestiynau gan y Cyhoedd	
5.	Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau	17 - 18
6.	Maes Llafur a Gytunwyd gan Sir Fynwy ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg	19 - 54
7.	Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Ysgol 3-19 y Fenni	55 - 84
8.	Penodiadau i Gyrrff Allanol – lleoedd gwag	85 - 88
9.	Cynigion i'r Cyngor:	
9.1.	Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Frances Taylor	

Bod y Cyngor hwn yn cytuno i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Lleol i ofyn am adolygiad o'r fformiwla sy'n sylfaen i gyllid neilltuedig awdurdodau lleol drwy setliad Llywodraeth Leol. Yn arbennig, y caiff elfennau'r fformiwla sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau mewn ardal sirol gan fwyaf eu hailystyried.

9.2. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Richard John

Mae'r Cyngor hwn yn:

Cofnodi ei edmygedd enfawr a'i ddiolch calonnog i'w Mawrhydi y Frenhines am oes o wasanaeth cyhoeddus ymroddedig ac yn croesawu'r dathliadau cymunedol llwyddiannus ledled Sir Fynwy i nodi Jiwbilî Platinwm y Frenhines. Mae'n cytuno y bydd pob arweinydd grŵp yn llofnodi llythyr ar y cyd i'w Mawrhydi ar ran pobl Sir Fynwy gan gynnig ein llongyfarchiadau a diolch twymgalon am bopeth a wnaiff Ei Mawrhydi a'r Teulu Brenhinol dros ein preswylwyr.

9.3. Cyflwynir gan y Cynghorydd Sir Tony Kear

Mae'r Cyngor hwn yn:

Nodi penderfyniad y cyngor llawn ym mis Mawrth i ddod y cyntaf yng Nghymru i ddatgan argyfwng ansawdd dŵr a chomisiynu strategaeth i wella ein dyfrffyrdd.

Pryderu'n ddifrifol am y dirywiad yng nghyflwr yr afonydd Gwy a Wysg yn Sir Fynwy ac yn arbennig yr allyriadau gormodol a heb drwydded o garthffosiaeth amrwd i'r Wysg sy'n bygwth bioamrywiaeth a bywyd gwylt yn ogystal â nifer pysgod.

Ymrwymo'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet i weithio gyda'r gwrthbleidiau ac awdurdodau perthnasol i sicrhau y gweithredir i wella iechyd ein hafonydd cyn ei bod yn rhy hwyr.

9.4. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Louise Brown

Mae'r Cyngor hwn yn:

Nodi bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio symud ymlaen ag astudiaeth WelTAG 2 ar yr opsiynau ar gyfer gwella cylchfan High Beech yng Nghas-gwent eleni.

Galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo fel mater o frys a rhoi cefnogaeth ariannol i bob un o bump cam yr astudiaeth hon a gweithredu astudiaethau a gwelliannau cylchfan High Beech fel blaenoriaeth, gan fod y tagfeydd traffig dyddiol ac oedi wrth deithio yn y man gwasgu hwn yn cael effaith niweidiol ar fywyd preswylwyr lleol o bob cefndir yn cynnwys teithio i'r ysgol, gwaith, siopa a dibenion hamdden.

10. Cwestiynau gan Aelodau:

10.1. Gan y Cynghorydd Sir Paul Pavia i'r Cynghorydd Sir Martyn Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg

A all yr Aelod Cabinet dros Addysg wneud datganiad ynghylch y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i roi cymorth iechyd meddwl ar gyfer disgyblion cyfnod Allweddol 4 a Chweched Dosbarth yn Sir Fynwy?

11.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – dydd Iau 21 Gorffennaf 2022

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Catherine Fookes
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Bob Greenland
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwranddo ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tim. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.